COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD IAU 27 EBRILL 2006 YN NHŶ CARADOG, 1-6 PLAS SAN ANDREAS, CAERDYDD CF10 3BE

Comisiwn

Mr J E Davies (Cadeirydd)
Mrs S Smith
Mr D H Roberts

Ysgrifenyddiaeth

Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr S Halsall
Mr D Carr

Swyddfa Archwilio Cymru

Mr M Jones
Mrs R Khan
Ms K Philpott

Gwasanaethau Archwilio Mewnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mr R Thomas
Mrs P Bowen-Bravery

Croesawodd y Cadeirydd Mr Jones, Mrs Khan, Ms Philpott, Mr Thomas a Mrs Bowen-Bravery i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mr Mike Usher (Swyddfa Archwilio Cymru), Mr David McNeill (Gwasanaethau Archwilio Mewnol) a Mrs Gill Luce (Gwasanaethau Archwilio Mewnol).

1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 8 Medi 2005.

1.1 Cytunwyd ar y rhain a chawsant eu mabwysiadu.

2. Materion yn codi.

2.1 Adroddwyd bod y meddalwedd cyfrifo wedi'i osod ar weithfannau'r Comisiwn gan y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, ni weithredodd y Cynulliad geisiadau i osod y meddalwedd ar weinydd y Comisiwn er gwaethaf gwneud y cais cyntaf ym mis Ionawr 2006 a gwneud amryw geisiadau ar ôl hynny. Nodwyd bod y meddalwedd yn gwbl weithredol a golyga hynny y byddai'r data cyfrifo yn ddiogel pe bai gweithfannau'r Comisiwn yn torri i lawr, ond ystyriwyd nad oedd y sefyllfa'n gwbl foddhaol. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn parhau i geisio cael y meddalwedd cyfrifo wedi'i osod ar y gweinydd.

2.2 Adroddwyd bod llythyr cyd-ddealltwriaeth o ran taliadau am logi offer Merlin wedi'i dderbyn oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol erbyn hyn.

3. Adroddiad Archwilio Mewnol 2005-06.

3.1 Cyflwynodd Mr Thomas y drafft o Adroddiad Archwilio Mewnol 2005-06 gerbron y cyfarfod. Tynnodd sylw Aelodau at gwmpas yr archwiliad y cytunwyd arno ac at y casgliad cyffredinol, sef bod fframwaith amgylchedd rheoli'r Comisiwn yn gweithredu'n effeithiol, er bod argymhellion wedi'u gwneud ar gyfer rhai meysydd lle roedd angen cryfhau'r rheolaeth.

3.2 Nododd yr adroddiad fod y Comisiwn wedi colli aelod allweddol o'r staff ym mis Rhagfyr 2005 a bod hyn wedi achosi trafferthion wrth wahanu dyletswyddau ac o'r herwydd bu methiant bach o ran rhoi ar waith un o'r argymhellion o archwiliad y llynedd. Roedd y Sicrwydd ar Feysydd Risg Allweddol wedi'i rannu'n 13 o Amcanion Rheoli, ac o'r rhain roedd wyth yn foddhaol tra nodwyd bod angen cryfhau'r rheoli ar y pump arall.

3.3 Roedd yr Adroddiad yn cynnwys 11 argymhelliad ar gyfer cryfhau rheoli, sef:

i) Llenwi'r swydd weithredol allweddol o Rheolwr Caffael cyn gynted ag y bo modd;
ii) Nodi gofynion hyfforddi staff a'u teilwra ar gyfer aelodau unigol o'r staff er mwyn sicrhau cysondeb o ran ymagwedd;
iii) Y dylai'r pecyn ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd o'u staff gynnwys mwy o wybodaeth am y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau gwybodaeth well i staff a gyflogir yn uniongyrchol ond sydd heb unrhyw wybodaeth gefndirol am y Cynulliad Cenedlaethol;
iv) Bod yr Ysgrifenyddiaeth a'r Is-adran Noddi yn nodi amserlen ar gyfer cynnal adolygiad cyfnodol i sicrhau bod y Comisiwn yn gwbl barod i gynnal yr arolwg etholiadol sydd ar ddod;
v) Bod y Comisiwn yn ystyried dulliau eraill o dalu heblaw am anfon sieciau drwy'r post er mwyn sicrhau na fyddai derbyn anfonebau am symiau mawr o arian yn golygu cadw arian yng nghyfrif banc y Comisiwn am ormod o amser, yn enwedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol;
vi) Bod y Comisiwn yn diweddaru'i Gynllun Parhad Busnes pan fyddai newidiadau'n digwydd;
vii) Bod y Comisiwn yn defnyddio meddalwedd cyfrifo;
viii) Y dylid gwirio anfonebau yn erbyn prisiau ar y contractau lle bo hynny'n gymwys ac y dylid nodi bod hyn wedi'i wneud ar yr anfoneb;
ix) Bod ceisiadau am Dreuliau Teithio a Chynhaliaeth yn cynnwys derbynebau gwreiddiol ar gyfer llety a bod hyn yn cael ei nodi ar y ffurflenni i gadarnhau bod y symiau y gwneir cais amdanynt yn gywir;
x) Bod costau Merlin yn cael eu cysoni'n fisol er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau i drefniadau staff y Comisiwn yn cael eu dangos yn gywir;
xi) Y dylai'r Comisiwn newid o ddefnyddio cerdyn Caffael Llywodraeth EM a defnyddio Cerdyn Caffael Cymru o ystyried polisi'r cyntaf ynglŷn â'r amser a ganiateir i wneud taliadau.

3.4 **Cytunwyd** y dylid derbyn yr argymhellion hyn a'u rhoi ar waith cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol. Nodwyd y daethpwyd o hyd i ymgeisydd am y swydd Rheolwr Caffael a'i bod yn dechrau yn y swydd ar 2 Mai 2006.

3.5 O ran pwynt iv) adroddwyd bod y mater yn ymwneud ag adolygiadau cyfnodol i'w drafod yn y cyfarfod nesaf rhwng yr Ysgrifenyddiaeth a'r Is-adran Noddi.

3.6 O ran pwynt v) roedd y Comisiwn o'r farn y byddai dull talu awtomatig yn lleihau'r perygl o ormod o arian yng nghyfrif banc y Comisiwn. Cododd y cwestiwn ynghylch a allai'r Comisiwn ddefnyddio debyd uniongyrchol i wneud taliadau yn erbyn anfonebau rheolaidd. Atebodd Mr Thomas bod Cyfrifo'r Llywodraeth yn nodi y dylid osgoi gwneud taliadau trwy gyfrwng debyd uniongyrchol. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ymchwilio i ddulliau talu awtomatig er mwyn asesu eu haddasrwydd.

4. Swyddfa Archwilio Cymru – Strategaeth Archwilio 2005-06

4.1 Esboniodd Mark Jones oherwydd bod archwiliad 2005-06 wedi cychwyn yn gynnar, bod y Strategaeth Archwilio a gytunwyd arni gan yr Ysgrifenyddiaeth yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar adeg pan oedd y gwaith archwilio ei hun ar fin cael ei gwblhau.

4.2 Roedd ymagwedd archwilio'r Strategaeth Archwilio yn seiliedig ar risg ac yn canolbwyntio ar feysydd lle roedd risg uchel o gam-ddatgan perthnasol. Roedd y rhain yn cynnwys prosesau cyfrifo â llaw y Comisiwn, gwaith adnewyddu cynlluniedig ar swyddfeydd y Comisiwn a darparu offer a gwasanaethau TG. Dywedodd Mr Jones fod yr archwiliad wedi dangos hyd yma nad oedd y risgiau a nodwyd wedi codi. Yn gyffredinol, roedd y cyfrifon a gynhyrchwyd gan gyfrifwyr y Comisiwn ar gyfer 2005-06 o ansawdd da, er y gobeithir y byddai defnyddio'r meddalwedd cyfrifo yn eu gwella eto. Nodwyd y gwaith adnewyddu gan fod angen sicrhau y gwneir cyfrif am y gwaith a'i ddatgelu'n gywir. Nodwyd bod llythyr cytundeb rhwng y Cynulliad a'r Comisiwn am ddarparu gwasanaethau TG wedi'i dderbyn a bod pob taliad i Merlin a arolygwyd yn ystod cynnal yr archwiliad wedi bod yn gywir.

4.3 Bu rhai newidiadau i drefn a chynnwys y cyfrifon yn sgil cyflwyno Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM a oedd wedi disodli'r Llyfr Cyfrifyddu Adnoddau a ddefnyddiwyd yn y gorffennol. Y prif newid oedd bod yr Adroddiad Blynyddol sy'n cynnwys mwy o fanylion am reoli perfformiad wedi disodli'r hen Ragair. Yn ogystal, yn wahanol i'r Rhagair blaenorol i'r cyfrifon, roedd elfennau o'r Adroddiad Blynyddol yn rhan o farn archwilio. Mae tair rhan i'r Adroddiad Blynyddol - Adroddiad y Cyfarwyddwr, Sylwadaeth y Rheolwyr a'r Adroddiad Taliadau.

4.4 Er bod angen rhai newidiadau i'r cyfrifon drafft, disgwyliwyd y byddai'r fersiwn derfynol yn barod i'w hardystio erbyn 15 Mai 2006. Fodd bynnag, fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Archwilio am weld y cyfrifon terfynol cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd. **Cytunwyd** i anfon fersiwn derfynol y cyfrifon i Aelodau i'w cymeradwyo trwy gyfrwng neges e-bost.

5. Arolygu'r Gofrestr Risgiau

5.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd y cynhaliwyd arolygiad o'r Gofrestr Risgiau o ganlyniad i newidiadau yn amgylchiadau'r Comisiwn. Y newidiadau oedd:

- Diwygio'r risg gyllidebol i adlewyrchu gwelliannau mewn rhagolygon cyllidebol a newidiadau i'r Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol er bod y tebygolrwydd o ran risg heb newid;
- Cynnydd yn y tebygolrwydd o risg Twyll a lladrata yn dilyn lladradau o offer y Comisiwn yn ystod 2005/06. Roedd newidiadau wedi'u cynnwys i ehangu'r gweithdrefnau sydd eisoes ar waith i leihau'r risg o ladradau a thwyll;
- Bod gostyngiad wedi digwydd yn y tebygolrwydd risg o ran materion Personél o ganlyniad i bolisi'r Comisiwn i gyflogi aelodau allweddol o staff yn uniongyrchol; a
- Bod gostyngiad yn y tebygolrwydd risg o ran Iechyd a Diogelwch o ganlyniad i newid hen ddodrefn yn y swyddfa ac adnewyddu gosodiadau trydan.

5.2 Nodwyd y newidiadau i'r Gofrestr Risg a chytunwyd arnynt gan y Pwyllgor.

6. Rhaglen Ymchwilio Gwerth am Arian

6.1 Esboniodd yr Ysgrifennydd fod y ddogfen hon gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gosod gerbron y Pwyllgor er gwybodaeth. Nododd y Pwyllgor gynnwys y ddogfen.

7. Prosesau Swyddfa Archwilio Cymru

7.1 Esboniodd yr Ysgrifennydd fod y ddogfen hon gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gosod gerbron y Pwyllgor er gwybodaeth. Nododd y Pwyllgor gynnwys y ddogfen.

8. Cwynion (eitem sefydlog).

8.1 Ni fu unrhyw gŵynion ynglŷn â'r Comisiwn ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio.

9. Unrhyw Fater Arall.

9.1 O ran amseru'r archwiliad presennol, roedd Aelodau o'r farn y byddai'n well yn y dyfodol i ystyried y Strategaeth Archwilio yn gynharach ac i ganiatáu mwy o amser ar gyfer ystyried yr Adroddiad Archwilio Mewnol. **Cytunwyd** os oes modd y dylid gosod y Strategaeth Archwilio gerbron aelodau yn y cyfarfod a gynhelir ym mis Chwefror a dylid ystyried yr Adroddiad Archwilio Mewnol yn y cyfarfod a gynhelir ar ddiwedd mis Mai.